

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 14eg o FEDI 2015 YN NEUADD YR EGLWYS,LLANGYNDEYRN AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees, Ian Evans, Tyssul Evans,Aled Williams,Richard Thomas,Meic Bowen,Geoff Hewitt a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Linda Williams,Alan Lewis,Wendy Evans,Heddwyn Jones ac Ellis Jenkins

Materion Personol

1215 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn arbennig y Cynghorydd Margaret Rees a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf.Estynnwyd cyfarchion i'r Cynghorydd Heddwyn Jones a oedd wedi dathlu Pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

1216 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 06/07/2015 fel rhai cywir.

1217 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1126 - Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi derbyn nawdd hyd at £3000 o Gronfa Eglwysi Cymru.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1218 Meinciau Sports Short Mat Bowls -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1219 Shelter Cymru - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1220 Macmillan Cancer Support - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1221 Carmarthen & District Youth Opera – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £25.

Cynghorwyr Tyssul Evans, Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1222 Neuadd Carwe – Paentio'r Toiledau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £596 allan o Gronfa Ffoslas.

Tyssul,Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1223 Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1224 Cylch Meithrin Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

1225 Seindorf Arian Crwbin - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1226 Bethel Llangyndeyrn - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1227 Neuadd Pontiets - Llythyr yn cadarnhau derbyn ein cais am logi Swyddfa a diolch am y cyfraniad.

- 1228** Ysgol Carwe - Llythyr yn diolch am y rhodd o £5505.23 ar gyfer gwella diogelwch safle.
- 1229** Ysgol Gwynfryn - Llythyr yn diolch am y rhodd o £3000 ar gyfer adeiladu cysgodfa awyr agored.

Gohebiaeth gyffredinol :-

- 1230** Cyngor Sir Gar – Deddf Trwyddedu 2003, Adolygu'r Polisi Trwyddedu – Nodwyd y llythyr.
- 1231** Cyngor Sir Gar – Deddf Hapchwarae 2005, Dogfen Ymgynghorol ynghylch Adolygu'r Polisi Hapchwarae. – Nodwyd y llythyr.
- 1232** Grŵp Cyngorau Cymuned y Gwendraeth - Cyfarfod 15/09/15 - Nodwyd y llythyr.
- 1233** Cyngor Cymuned Llandybie – Ciosg BT.- Danfonir y manylion cysylltu ymlaen.
- 1234** Un Llais Cymru - Cynigion i'r Cyfarfod Blynyddol - Nodwyd y llythyr.
- 1235** Tarmac - Arddangosfa Gyhoeddus ynglŷn â Chwareli Torcoed, Torcoed fawr a Chrwbin 15/09/15.- Argymhellwyd y Cyngorwyr i fynd i'r Arddangosfa.
- 1236** Yr Arolygiaeth Gynllunio – Coedwig Brechfa – Nodwyd y llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

1236

Ceisiadau Cynllunio:

- Power for Wales Inc Ltd – Fferm Rhas Fach, Heol Mansant, Pontiets – Fferm Solar - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Adrian Richards a Mrs Rachel Richards – 21, Yr Onnen, Meinciau – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad
- John Hancock – Waun Fawr, Mynyddcerrig – Adeilad Allosodyn – Dim Gwrthwynebiad.
- Mr a Mrs Treharne – Tynycwm, Heol Nasareth, Pontiets - Estyniad - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr a Mrs Simon North Mulis – Bwlch y Waun, Llangyndeyrn – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
- Mrs Marie Evans - Y Ceffyl Du, Meinciau - Newid o Dy Dafarn i Dy Annedd - Dim Gwrthwynebiad.
- Christine Abbott – 2, Glyncoed, Pedair Heol – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon, Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid – **Gwrthwynebiad ar sail bod yr heol yn gul a'r Groesfordd yn anaddas i Gerbydau trwm.**

Pwyllgor Cyllid

- 1237** Trafodwyd a dderbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 23/07/15

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

- 1238** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Gorffennaf ac Awst

Adroddiad Ariannol Misol

- 1239** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £350.44 (Mis Gorffennaf)
 - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf)

- c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £89.19 (Mis Gorffennaf)
- ch) HMRC (Treth)- £70.00 (Mis Gorffennaf)
- d) Stampiau (Mis Gorffennaf) - £12.96
- dd) Papur i'r Llungopiwr - £15.96
- e) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Awst)
- f) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Awst)
- ff) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr – £97.52 (Mis Awst)
- g) HMRC (Treth) - £74.20 (Mis Awst)
- ng) 'Top-up' Ffon Symudol - £20.00
- h) Stampiau (Mis Awst) - £14.04
- i) Cyngor Sir Gar – Golau Lampau Ynys Fawr a Tafan Smiths' - £6.79
- l) Ciran Griffiths – Torri gwair ym Marc Carwe (Cronfa Ffoslas) - £60.00
- m) Ciran Griffiths – Gwaith yn Neuadd Pontiets - £45.00
- n) 'Knowhow' - Gwarantu Estynedig ar Gyfrifiadur y Cyngor - £65.00
- o) Martin Richards - To Newydd ar Gysgodfa Bys Pontantwn - £1390.00

1240 Cyfrifon y Cyngor 2014-2015

Cafwyd adroddiad gan y Clerc o lythyr a dderbyniwyd oddiwrth y BDO, ein Harchwilwyr Allanol, yn datgan bod yr archwiliad wedi ei gwblhau. Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £420.00. Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

Materion Cynghorwyr

1241 Geoff

- Cysylltu â'r Heddlu ac Adran Trwyddedu'r Cyngor Sir ynglŷn â Thacsis yn parcio yn anghywir wrth Heol Bancyroffis a Maesglas, Pontiets

1242 Ian

- Parcio yn anghyfreithlon ar ddwy ochr Maesywern, Carwe rhwng 44-56.
- Trefnu i 'strimmo'r' gwair ym Marc Carwe yn fisol.
- Gofyn eto i'r 'Woodlands Trust' i ddod i Gyfarfod o'r Cyngor.

**Cyfarfod nesaf:- 5 o Hydref 2015 yn Ffestri Capel Moreia Meinciau am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....